

Cronfa Cymunedau'r Arfordir Llywodraeth Cymru - Rownd 6

Dosbarthwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol



Dosbarthwyd gan
CRONFA GYMUNEDOL Y
LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY
COMMUNITY FUND

Cynnwys

Rhan un: Trosolwg o Gronfa Cymunedau'r Arfordir	3
Rhan dau: Cymhwysedd	5
Rhan tri: Am beth allai ymgeisio?	6
Rhan pedwar: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf . . .	8
Rhan pump: Ymgeisio, asesu a gwneud penderfyniadau . . .	9
Rhan chwech: Os ydych yn cael eich ariannu	14
Rhan saith: Beth yw'r amserlen?	16
Rhan wyth: Manylion cyswllt	17

Rhan un: Trosolwg o Gronfa Cymunedau'r Arfordir

Yn 2012 cyflwynodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru Gronfa Cymunedau'r Arfordir (CCA) i gefnogi prosiectau datblygu economaidd mewn ardaloedd arfordirol ledled y DU.

Rownd Chwech

Bydd gan Rownd chwech CCA oddeutu £3.7 miliwn ar gael i ariannu prosiectau sy'n mynd i'r afael â heriau economaidd unigryw ardaloedd arfordirol yng Nghymru. Mae grantiau rhwng £50,000 a £300,000 ar gael i amrywiaeth eang o fudiadau a busnesau sydd o fantais i gymunedau arfordirol yng Nghymru.

Nodau a chanlyniadau'r rhaglen

Amcan CCA yw cefnogi datblygiad economaidd cymunedau'r arfordir trwy hyrwyddo twf economaidd a creu swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal.

Disgwylir i'r holl brosiectau a ariennir trwy CCA gyflwyno'r canlyniadau a ganlyn:

- **Bydd cymunedau'r arfordir yn profi adfywio a thwf economaidd trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol a/ neu'n anuniongyrchol ac yn diogelu swyddi sydd eisoes yn bodoli**

neu

- **Bydd ardaloedd canol trefi mewn cymunedau arfordirol yn profi adfywiad economaidd a chymdeithasol trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac yn diogelu swyddi presennol, neu'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol eraill.**

Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod eu cynnig yn cyd-fynd â blaenoriaethau effaith economaidd a chymdeithasol eang yr ardal leol, gan gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â gweledigaethau a strategaethau economaidd ehangach, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau penodol y cymunedau lleol.

Rydym yn fwy tebygol o ariannu prosiectau a all ddangos cyswllt cryd â'r economi leol ac sy'n gweddu i'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn yr ardal.

Egwyddorion ariannu

Cyfle i'r Farchnad - Rhaid i brosiectau ddangos sut y byddant o fudd i bobl leol ac economïau a gwneud y gorau o sgiliau a phrofiad pobl ac asedau mewn cymuned arfordirol. Rhaid i brosiectau hefyd ddangos bod digon o alw economaidd ac na fyddant yn disodli swyddi neu weithgaredd presennol.

Amgylchedd - Rydym yn disgwyl i brosiectau fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac i ddangos hyn yn eu dulliau creu swyddi a thwf economaidd. Gweler y dolenni gwe canlynol i arweiniad Llywodraeth Cymru ar arfer gorau yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#)

Cynllun Morol Cenedlaethol - Rydym hefyd yn disgwyl i brosiectau (lle bo hynny'n berthnasol) ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Llywodraethau Cymru ar gyfer defnydd cynaliadwy o'n moroedd a sicrhau bod eu cynigion yn unol â'r cynllun. Gallwch ddarganfod mwy amdano yma: [Cynllun Morol Cenedlaethol](#)

Ariannu arall - Ni ddylai prosiectau ofyn am arian grant CCA os yw ffrwd ariannu bresennol neu fwy priodol ar gael y mae ymgeiswyr yn gymwys i ymgeisio iddi. Er enghraifft: [Ariannu Adfywio Llywodraeth Cymru](#), [Cynlluniau grant Busnes Cymru](#), neu ariannu [Wales Co-op](#). Os yw eich prosiect yn fwy addas ar gyfer rhaglen ariannu Pawb a'i Le Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, efallai y byddwn hefyd yn eich cyfeirio i ystyried hynny yn lle.

Covid-19 – Er y byddwn yn asesu eich cais gan ystyried cyd-destun cyfnewidiol Covid-19, ac rydym yn eich annog i feddwl am hyn wrth baratoi eich cais, ni all y gronfa hon gefnogi colledion incwm, lleddfu pryderon llif arian, na thalu gorbenion nas cwrddwyd â nhw neu costau cyflog a achosir o ganlyniad i Covid-19. Fodd bynnag, bydd yn ystyried ceisiadau gan sefydliadau sy'n ceisio addasu a thyfu eu gweithrediadau neu wireddu cyfleoedd newydd sy'n codi o ganlyniad i Covid-19. I gael mwy o wybodaeth am gefnogaeth Covid-19 i fusnes a'r trydydd sector, ewch i'r gwefannau canlynol:

- [gov.uk/coronavirus/business-support](https://www.gov.uk/coronavirus/business-support)
- gov.wales/coronavirus-covid-19-support-for-the-third-sector-html

Y prosiectau rydyn ni'n eu hariannu - Rydyn ni am ariannu prosiectau sydd wedi ymrwymo i gydraddoldebau a'r amgylchedd.

Cydraddoldeb - Mae ein hegwyddorion cydraddoldeb yn cynnwys: hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol, lleihau anfantais ac eithrio. Gallwch ddarganfod mwy amdano yma: <http://stnlcommunityfund.org.uk/about/customer-service/equalities>

Amgylchedd - Mae'r amgylchedd yn bwysig i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac rydym wastad yn ceisio rheoli ein effaith amgylcheddol. Rydym yn annog ac yn cefnogi prosiectau a chymunedau i wneud yr un peth, a byddwn yn disgwyl ichi ystyried hyn wrth ddatblygu eich prosiect. Dysgwch fwy am sut y gallwch wneud eich prosiect neu ddigwyddiad yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac efallai arbed arian ar yr un pryd trwy ymweld â: tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/funding-guidance/reducing-your-environmental-footprint

Hygyrchedd - Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu sydd gennych. Mae gwybodaeth gyswllt ar gael ar ddiwedd yr arweiniad hwn.

laith Gymraeg - Disgwyliwn y bydd y gwasanaethau a ddarperir gennych ar gael yn ddwyieithog, yn Saesneg ac yn Gymraeg, felly bydd angen i chi sicrhau:

- eich bod yn hyrwyddo eich prosiect yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn cynhyrchu fersiynau dwyieithog o'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys cyhoeddiadau a gwefannau
- eich bod yn hysbysebu'n ddwyieithog pob swydd y telir amdani gyda'n grant a'ch bod yn ystyried p'un a oes angen i'r swydd gael ei llenwi gan siaradwr Cymraeg ai beidio
- eich bod yn rhoi ystyriaeth i natur ieithyddol y gymuned y byddwch yn gweithio ynddi.

Dysgwch fwy am reoli eich prosiect yn ddwyieithog [YMA](#):

Mae'r arweiniad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Rhan dau: Cymhwysedd

Pwy all ymgeisio?

At ddibenion CCA, y diffiniad o gymuned arfordirol yw:

- Unrhyw anheddiad o fewn tair milltir i arfordir Cymru.

Efallai y byddwn hefyd yn derbyn ceisiadau gan fudiadau y mae gan eu gwasanaethau gysylltiad clir ag economïau arfordirol lleol. Diffiniad CCA o dref yw:

- Unrhyw anheddiad â phoblogaeth o fwy na 1000 o bobl, ond llai na 100,000.

Rhaid i unrhyw geisiadau sy'n mynd i'r afael â chanlyniad adfywio canol y dref gael eu lleoli mewn anheddiad sy'n bodloni'r ddau faen prawf uchod.

Rydym yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau terfynol ar gymhwyster, gan ymgynghori, pan fo'n briodol, gydag adrannau llywodraeth perthnasol a chyrrff arbenigol eraill. Os nad ydych yn siŵr a yw'ch ardal yn gymwys, gweler **Rhan wyth: Manylion cyswllt** i gael manylion am sut i gysylltu.

Gall y mathau canlynol o fudiadau ymgeisio:

- Cwmnïau'r sector preifat
- Awdurdodau lleol
- Cyrff sector cyhoeddus eraill
- Elusennau
- Mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol
- Mentrau cymdeithasol, gan gynnwys cydweithfeydd a mentrau sy'n eiddo i'r gymuned
- Asiantaethau datblygu

Rhaid bod gan ymgeiswyr o leiaf ddau aelod digyswllt ar eu corff llywodraethu, pwyllgor rheoli neu fwrdd cyfarwyddwyr. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o geisiadau gan unrhyw gymuned arfordirol benodol, fodd bynnag gall mudiad ymgeisio am un prosiect yn unig ym mhob rownd ariannu. Mae prosiectau sy'n cynnwys gweithgareddau mewn mwy nag un cymuned arfordirol yn gymwys i ymgeisio.

Ceisiadau partneriaeth

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau traws-sector cryf. Dylai mudiad arweiniol gyflwyno'r cais ar ran y bartneriaeth a bod yn atebol am gyflwyno'r prosiect a'r ariannu. Rhaid bod cytundeb partneriaeth ar waith cyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn, sef **hanner dydd, dydd Iau Hydref 29ain 2020**.

Os bydd unrhyw bartneriaid yn darparu nwyddau neu wasanaethau ar gyfer y prosiect ac yn derbyn taliad gydag arian CCA, rydym yn disgwyl i'r mudiad arweiniol ddilyn ei brosesu caffael cytunedig, dangos gwerth am arian a glynu wrth ddeddfau perthnasol.

Pa mor ddatblygedig y mae angen i brosiectau fod?

Bydd angen i brosiectau sy'n ceisio am arian grant yn Rownd chwech ddangos eu gallu i gychwyn eu prosiect erbyn 1 Gorffennaf 2021 fan bellaf a gwario unrhyw arian CCA yn llawn erbyn 30 Mehefin 2023.

Darllenwch **Rhan pump: Cais, asesu a gwneud penderfyniadau**, a **Rhan saith: Beth yw'r amserlen?** am fwy o wybodaeth manylach.

Rhan tri: Am beth allai ymgeisio?

Gallwch ymgeisio am grantiau rhwng **£50,000 a £300,000**.

Er yr anogir ariannu o ffynonellau eraill, nid yw'n hanfodol a gall CCA fod yn unig ariannwr eich prosiect. Dylai prosiectau sydd â chyllid o ffynonellau eraill sicrhau nad yw trefniadau ariannu'n effeithio ar y gallu i gyflwyno'r prosiect o fewn yr amserlen CCA. Rhaid sicrhau pob ffynhonnell ariannu arall erbyn y **dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn, sef hanner dydd, dydd Iau Hydref 29ain, 2020**.

Mae grantiau ar gael ar gyfer costau cyfalaf a refeniw. Yn nodweddiadol gellir defnyddio arian CCA i dalu am:

- gyflogau sy'n cyfrannu at gyflwyno'r canlyniad CCA
- cyflwyno'r prosiect
- costau cyfreithiol (gan gynnwys cyngor ar gymorth gwladwriaethol i sicrhau cydymffurfio â'r grant)
- hyfforddiant a datblygu sgiliau
- treuliau teithio
- rhentu adeiladau, gosodiadau a ffitiadau
- cyfran o'r gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni prosiect CCA
- tir ac adeiladau (gallai'r rhain gynnwys prynu neu lesio tir, adeiladu, gwaith adeiladu, adnewyddu, costau arolwg a ffioedd proffesiynol cysylltiedig)
- cyfarpar neu gerbydau.

Ni ellir defnyddio arian CCA i dalu am y canlynol

- costau sydd wedi'u gwario cyn i gynnig ariannu gael ei wneud
- astudiaethau dichonoldeb

- eitemau nad oes eu hangen yn uniongyrchol i gyflwyno'r gwaith arfaethedig
- teithio y tu allan i'r DU
- arian ar gyfer cronfa wrth gefn neu warged, p'un ai i'w dosbarthu neu beidio
- ad-dalu benthyciadau
- cyfraniadau at apeliadau cyffredinol
- gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol
- gweithgareddau y mae'r llywodraeth yn gyfrifol amdanynt i ailddosbarthu ariannu (megis defnyddio rhan o grant CCA i redeg cynllun grantiau cymunedol neu ddarparu grantiau i fusnesau lleol).
- colledion incwm, lleddfu pryderon llif arian, talu costau gorbenion neu gyflog nas talwyd o ganlyniad i Covid-19

Cymorth Gwladwriaethol

Mae Cymorth Gwladwriaethol yn derm cyfreithiol penodol yn deillio o gyfamod yr Undeb Ewropeaidd sy'n disgrifio cymorth ariannol i fudiadau sy'n cyflawni gweithgarwch economaidd (p'un ai er elw ai beidio), a allai ystumio cystadleuaeth. Os gallai ein hariannu roi mantais i chi dros fudiadau eraill sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau tebyg, neu os gallai'r gweithgareddau rydych am i ni eu hariannu effeithio ar fasnachu rhwng aelod-wladwriaethau'r UE, yna gellir ystyried bod ein hariannu'n gyfystyr â 'Chymorth Gwladol'. Sylwch y bydd cyfnod pontio ar ôl 31 Ionawr 2020 tan ddiwedd 2020, tra bydd y DU a'r UE yn negodi trefniadau ychwanegol mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol. Rheolau cyfredol ar gymorth gwladwriaethol i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

Nid yw'n hysbys eto pa drefniadau cymorth gwladwriaethol a all fod yn berthnasol ar ôl diwedd y cyfnod trosglwyddo, ond bydd disgwyl i bob prosiect a ariennir gydymffurfio'n llawn â pha bynnag gynllun cymorth gwladwriaethol sydd ar waith adeg ei ddyfarnu. Bydd y Gronfa yn ceisio diweddarau ymgeiswyr ynghylch unrhyw newidiadau perthnasol i gyfraith Cymorth Gwladwriaethol, ond noder mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cadw i fyny â'r ddeddfwriaeth gyfredol a sicrhau cydymffurfriad.

Mynnwn fod ymgeiswyr yn hunanwerthuso sut mae eu prosiect yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd, gan geisio cyngor cyfreithiol arbenigol os oes angen.

Bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o'n proses asesu. Cyn gwneud unrhyw gynnig ariannu, byddwn yn mynnu y cytunir ar sefyllfa Cymorth Gwladwriaethol gyda ni sy'n gymwys o dan Gyfraith yr UE. Mae prosiectau sy'n cynnwys elfennau masnachol, megis masnachu nwyddau neu wasanaethau ar farchnad agored, yn llawer mwy tebygol o gael eu hystyried yn Gymorth Gwladwriaethol. Os oes gan eich prosiect arfaethedig elfennau masnachol, rhaid i chi ystyried sut y byddwch yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE.

Mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol i ddiogelu cystadleuaeth yn y sectorau pysgodfeydd, acwafeithrin ac amaeth yn arbennig o lym. Dim ond y prosiectau hynny nad ydynt yn cyfleu unrhyw fantais economaidd dewisol y gellir eu hystyried yn y sectorau hyn (megis mesurau cadwraeth nad ydynt o fudd uniongyrchol i fusnes, megis deorfa gimychiaid sy'n ceisio sefydlogi neu dyfu stociau pysgodfeydd).

Os ydych wedi derbyn unrhyw ariannu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf y gellir ei ddosbarthu'n Gymorth Gwladwriaethol 'de minimis', mae'n rhaid i chi ddatgan hyn pan fyddwch yn ymgeisio i CCA a gallai fod angen i unrhyw gynnig ariannu gael ei addasu'n unol â hynny.

Bydd angen i chi ddweud wrthym sut y bydd eich prosiect yn cydymffurfio â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol, yn seiliedig ar unrhyw gyngor cyfreithiol rydych chi wedi'i gymryd. Bydd angen i chi ddarparu manylion am:

- unrhyw gyngor cyfreithiol arbenigol rydych chi wedi'i dderbyn ar sut mae deddfwriaeth Cymorth Gwladwriaethol yn effeithio ar eich prosiect
- sut y byddai ein hariannu'n effeithio ar eich sefyllfa gystadleuol neu ariannol mewn perthynas â mudiadau eraill sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau tebyg
- pa lwybr eithrio rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio i gwmpasu'ch prosiect (os yw Cymorth Gwladwriaethol yn berthnasol i'ch prosiect)
- swm unrhyw ariannu rydych chi wedi'i dderbyn dros y dair blynedd diwethaf a gafodd ei ddosbarthu'n Gymorth Gwladwriaethol.

I gael mwy o wybodaeth am Gymorth Gwladwriaethol ewch i gov.uk/state-aid

Mae methu â chydymffurfio â rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yn golygu na allwn ddyfarnu ariannu. Gallwch gynnwys swm o hyd at £3,000 yn eich prosiect i ariannu neu ad-dalu cyngor cyfreithiol arbenigol y byddwn yn gofyn amdano i weld a yw'ch cais yn llwyddiannus. Sylwch na ellir ad-dalu'r swm hwn am y ceisiadau hynny sy'n aflwyddiannus yn y cam Syniad (cam un).

Rhan pedwar: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf

Tir ac adeiladau

Rydym angen i brosiectau cyfalaf sy'n ymgeisio i CCA fod mewn cam datblygedig. Ar gyfer pob prosiect cyfalaf sy'n cynnwys tir ac adeiladau, mae hyn yn golygu bod yn **rhaidd** i'ch prosiect fod yng Ngham 4 RIBA erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn, sef **hanner dydd, dydd lau Hydref 29ain, 2020**. Mae'r camau RIBA yn gynllun gwaith cydnabyddedig a luniwyd gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain sy'n disgrifio'r gweithgareddau ar bob cam mewn prosiect adeiladu. Bydd gan brosiect ar RIBA Cam 4 (Cam Dylunio Technegol] friff prosiect a ddatblygwyd yn llawn, bydd wedi gwneud yr holl arolygon a bydd ganddo lefel briodol o wybodaeth am ddylunio/costau. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar [wefan y Cynllun Gwaith RIBA](#).

Caniatadau statudol

Rhaidd i brosiectau sy'n cynnwys tir, adeiladau neu weithgaredd arall sy'n gysylltiedig ag adeiladu fod wedi sicrhau Caniatâd Cynllunio llawn (gan gynnwys unrhyw gydsyniadau Adeilad Rhestredig a Chadwraeth) a chael unrhyw gydsyniadau perthnasol eraill (megis Trwydded Forol, Cydsyniad Ystadau'r Goron, Trwydded Harbwr ac ati) erbyn dyddiad cau'r cais o **hanner dydd, dydd lau Hydref 29ain, 2020**.

Les/perchnogaeth

Mae'n rhaid i asedau sydd i'w datblygu gydag arian CCA fod yn eiddo i, neu wedi'u lesio gan, yr ymgeisydd neu, yn achos prosiectau partneriaeth, cytundeb cyfreithiol priodol a roddwyd mewn lle i drosglwyddo ein hamodau a thelerau. Erbyn y terfyn amser y cais, mae'n rhaid i brosiectau cyfalaf fod â theitl rhydd-ddaliad/etifeddadwy neu brydles i unrhyw

dir/eiddo sydd i'w ddefnyddio ar gyfer y prosiect. os na ddelir teitl eto, mae angen tystiolaeth bod contract cyfreithiol rwymol yn bodoli ar gyfer y pwrcasiad/les, ac y caiff y pwrcasiad/les ei gwblhau o fewn tair mis os cynigir grant gan CCA.

Ar gyfer prosiectau cyfalaf hyd at £100,000, mae angen les 5 mlynedd o leiaf; dros £100,000 ond llai na £300,000, les 10 mlynedd o leiaf. Mae'n rhaid i lesau fod yn aseiniadwy a heb gymal torri. Ar gyfer ceisiadau am bortffolio o brosiectau cyfalaf sydd â gwerth ar y cyd o dros £100,000, mae'n rhaid i bob les bara am 10 mlynedd.

Caffael

Rydym yn argymhell i chi gynnwys cymal torri yng nghontractau'r tîm proffesiynol a gyflogwch i ddatblygu'ch prosiect, fel y gellir tendro'r prosiectau hyn yn briodol os bydd grant yn cael ei ddyfarnu.

Amserlenni cyfalaf

Bydd disgwyl i ymgeiswyr amlinellu rhaglen weithgareddau yn eu cais sy'n adlewyrchu eu prosiect ac amserlenni arfaethedig yn gywir a sut mae hynny'n cydweddu ag amserlenni CCA.

Bydd angen i brosiectau sy'n derbyn 100% o'u harian gan CCA gyrraedd y cam Cwblhau Ymarferol erbyn 31 Mawrth 2023 er mwyn i hawliadau terfynol gael eu cyflwyno a'u talu erbyn terfyn amser y rhaglen o 30 Mehefin 2023.

Ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda gweithgareddau ac ariannu arall y tu hwnt i 30 Mehefin 2023, mae'n rhaid cwblhau a hawlio'r holl wariant ar CCA erbyn diwedd 30 Mehefin 2023 ac mae'n rhaid eich bod yn ymrwymedig trwy gontract adeiladu i gwblhau'r prosiect gyda chyllid arall.

Rhan pump: Ymgeisio, asesu a gwneud penderfyniadau

Byddwn ond yn derbyn un cais i bob mudiad.

Mae dau gam i'r broses ymgeisio. Y cyntaf yw cyflwyniad e-bost yn manylu ar eich syniad prosiect, ac mae'r ail yn gais ysgrifenedig llawn. Mae manylion y ddau gam isod.

Sylwch fod CCA yn rhaglen ariannu boblogaidd iawn a'i bod yn hynod gystadleuol, felly nid ydym yn gallu cefnogi'r holl brosiectau gwyb sy'n berthnasol. Yn y rownd derfynol ddiweddaraf CCA, cawsom oddeutu 170 o geisiadau cychwynnol, ond dim ond 17 dyfarniad a ganiataodd y gyllideb.

Cam syniad cychwynnol

Cyn i chi gyflwyno'ch e-bost Syniad, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen POB UN o'r nodiadau arweiniad hyn ynghyd â'r wybodaeth sydd ar gael ar [ein gwefan](#):

- nodiadau arweiniad rownd chwech CCA
- Arweiniad ar fesur canlyniadau economaidd
- Amodau a thelerau grant safonol
- Amodau a thelerau ychwanegol o grant ar gyfer grantiau cyfalaf
- Canllaw i'n gwiriadau ar eich gwybodaeth
- Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog
- Cynllun cymorth gwladwriaethol

RHAID i chi hefyd gwblhau ein **gwiriad cymhwysedd ar-lein** i sicrhau bod eich mudiad a'ch prosiect yn gymwys i wneud cais. **Ni fydd unrhyw geisiadau nad ydynt yn cwrdd â'n gofynion cymhwysedd yn cael eu hasesu.** Dyma'r ddolen i'n gwefan CCA, lle byddwch yn dod o hyd i'r gwiriwr cymhwysedd ar-lein: [ein gwefan CCA](#)

Os ydych chi'n hyderus bod eich mudiad a'ch prosiect yn gymwys i gael cyllid CCA a bod y ddau yn cyfateb yn dda i nodau a chanlyniadau rhaglen CCA, dywedwch wrthym am eich syniad, trwy e-bost i'r cyfeiriad hwn: arfordir@cronfagymunedolylg.org.uk cyn **hanner dydd, Hydref 2il 2020**.

PEIDIWCH ag anfon atodiadau gyda'ch e-bost, cewch gyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol os ydym yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn.

Beth mae angen i ni ei wybod

Yn eich cyflwyniad e-bost Syniad, defnyddiwch y penawdau canlynol i ddweud wrthym am eich prosiect:

- **Enw Cyswllt, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn**
- **Enw'r Prosiect**
- **Enw'r mudiad**
- **Math o fudiad**
- **Cymhwyster Prosiect a Mudiad**
- **Caniatadau a Chydsyniadau**
- **Cyfanswm Costau'r prosiect a'r Swm y Gofynnwyd amdano**
- **Lle bydd yn digwydd**
- **Nodau CCA**
- **Syniad y prosiect (dim mwy na 600 gair)**
- **Sut mae'ch prosiect yn cwrdd â'r meini prawf (dim mwy na 600 gair)**

Beth i'w ddweud wrthym o dan bob un o'r penawdau hyn:

- **Enw Cyswllt, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn** - dywedwch wrthym yr enw llawn, cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn cyswllt gorau ar gyfer y person y dylem gysylltu ag ef os oes gennym unrhyw gwestiynau am eich syniad prosiect
- **Enw'r Prosiect** - dywedwch wrthym enw eich prosiect, gallwch newid hwn yn nes ymlaen os ydych chi eisiau
- **Enw'r Mudiad** - dywedwch wrthym enw cyfreithiol llawn eich mudiad, fel y dangosir ar eich dogfen lywodraethol
- **Math o Fudiad** - dywedwch pa fath o fudiad ydych chi: Y sector preifat corfforedig, Sector preifat anghorfforedig, Elusen, Cwmni Budd Cymunedol neu gymdeithas gydfuddiannol, Sector cyhoeddus, neu arall (rhowch fanylion)?
- **Cymhwyster Prosiect a Mudiad *** - cadarnhewch eich bod wedi cwblhau ein gwiriad cymhwysedd ar-lein, a bod eich mudiad a'ch prosiect yn gymwys i wneud cais. Gweler **Rhan dau: Cymhwysedd ac [ein gwefan CCA](#)** i gael mwy o fanylion
- **Caniatadau a Chydsyniadau *** - os yw'n briodol, cadarnhewch y byddwch yn gallu cwrdd â'n gofynion o ran caniatâd a chydsyniadau mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn o hanner dydd, Hydref 29ain 2020. Gweler **Rhan pedwar: Canllawiau manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf** i gael mwy o fanylion
- **Cyfanswm Costau'r Prosiect a'r Swm y Gofynnwyd Amdano** - dywedwch wrthym faint rydych chi'n rhagweld y bydd eich prosiect yn ei gostio, a faint o'r swm hwn rydych chi'n gofyn amdano gan CCA
- **Lle Bydd yn Digwydd** - dywedwch wrthym y lleoliad/lleoedd y bydd eich prosiect yn digwydd ynddynt

- **Nodau CCA** - Nodwch a fydd eich prosiect yn cyfrannu at adfywiad economaidd yn benodol yng nghanol tref drefol
- **Syniad Prosiect** (dim mwy na 600 gair) - dywedwch wrthym am eich syniad prosiect, sut rydych chi'n gwybod y bydd yn gweithio, a sut mae'n cyd-fynd â gwaith cyfredol eich mudiad
- **Sut Mae Eich Prosiect yn Cwrdd â'r Meini Prawf** (dim mwy na 600 gair) - dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn cwrdd â nodau a chanlyniadau'r CCA. Gweler **Rhan un: Trosolwg o Gronfa Cymunedau'r Arfordir** am fwy o fanylion.

* Gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd ac unrhyw ganiatâd a chydysniad, os cewch eich gwahodd i gyflwyno cais llawn.

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n bosib y byddwn yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu mwy o wybodaeth. Gall hyn fod dros e-bost neu dros y ffôn.

Rydym yn eich annog i gyflwyno'ch e-bost Syniad ymhell cyn y dyddiad cau o **Hanner dydd, dydd Gwener Hydref 2il 2020** rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael unrhyw wybodaeth eglurhad, ac i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r amser y mae'n rhaid i chi ddatblygu ac ysgrifennu eich cais llawn, pe byddem yn eich gwahodd i gwneud cais.

Byddwn yn nodi'r prosiectau sy'n cyd-fynd yn gryf â nodau a chanlyniadau'r rhaglen ac yn eu gwahodd i gyflwyno cais llawn. Ein nod yw rhoi penderfyniadau i chi ar eich e-bost Syniad o fewn pythefnos i'ch cyflwyniad. Byddwn yn anfon e-bost i'ch hysbysu o'n penderfyniad ac yn darparu manylion ar sut i gwblhau a chyflwyno cais llawn. Os na fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn, byddwn yn dweud wrthy'ch pam, er efallai na fydd adborth manwl ar gael oherwydd nifer y ceisiadau a dderbyniwn fel arfer.

Cais llawn

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cais llawn yw **hanner dydd, dydd Iau Hydref 29ain 2020**.

Gwneir y cais llawn trwy wahoddiad yn unig ac mae'n golygu llenwi'r ffurflen gais a darparu gwybodaeth ategol berthnasol, a all gynnwys cynllun busnes sy'n bodoli eisoes. Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys tir ac adeiladau, mae angen gwybodaeth ychwanegol sylweddol. Gweler **Rhan pedwar: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf**.

Rydym yn disgwyl gwahodd mwy o brosiectau i gyflwyno cais llawn nag y gallwn eu hariannu. Roedd galw mawr iawn am arian CCA ym mhym rownd gyntaf y rhaglen a rhagwelir diddordeb mawr tebyg yn Rownd chwech. Felly, bydd y cam ymgeisio llawn yn parhau i fod yn broses gystadleuol.

Gwybodaeth allweddol ei angen - erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn, sef hanner dydd, dydd Iau Hydref 29ain 2020.

- Disgwylir i brosiectau cyfalaf sy'n cynnwys tir ac adeiladau gael eu datblygu i Gam Gwaith 4 RIBA gyda'r holl gydsyniadau a theitl yn cael eu sicrhau erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn. Byddwn yn esbonio hyn yn fanylach yn **Rhan pedwar: Arweiniad manwl ar gyfer prosiectau cyfalaf**
- Rhaid i'r holl gydsyniadau, caniatâd neu drwyddedau gofynnol eraill fod ar waith erbyn y dyddiad cau llawn ar gyfer gwneud cais
- Mae'n rhaid i brosiectau sy'n ymwneud ag ariannu o ffynonellau eraill fedru darparu tystiolaeth bod yr holl ariannu arall wedi'i sicrhau erbyn y terfyn amser ymgeisio llawn.
- Rhaid i bob prosiect fod â swydd Cymorth Gwladwriaethol glir, sy'n gymwys o dan gyfraith yr UE, erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais llawn.
- Rhaid i bob prosiect sy'n cynnwys partneriaethau fod â chytundebau partneriaeth perthnasol ar waith, sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob un o'r partneriaid.

Ni fydd unrhyw gais sy'n anghyflawn neu'n anghymwys ar y dyddiad cau ar gyfer cais am hanner dydd, dydd Iau Hydref 29ain 2020 yn cael ei asesu.

Asesiad

Y meini prawf gwneud penderfyniadau allweddol fydd pa mor dda y mae'r prosiect yn cwrdd â nodau a chanlyniadau'r CCA:

- Cefnogi datblygiad economaidd cymunedau'r arfordir trwy hyrwyddo twf economaidd a chreu swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal.

a

- Bydd cymunedau'r arfordir yn profi adfywio a thwf economaidd trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol ac yn diogelu swyddi sydd eisoes yn bodoli

neu

- Bydd ardaloedd canol trefi mewn cymunedau arfordirol yn profi adfywiad economaidd a chymdeithasol trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac yn diogelu swyddi presennol, neu'n mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol eraill.

a

- p'un a fydd y prosiect yn creu swyddi a/neu'n cynnal swyddi presennol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac yn hyrwyddo twf economaidd
- p'un a yw'r cyfle marchnad ar gyfer y prosiect wedi'i ddangos yn glir, heb yr angen i ddisodli swyddi a gweithgaredd presennol
- pa mor dda y mae'r prosiect yn cysylltu â'r economi leol ac yn credu buddion ar gyfer y gymuned leol
- pa mor dda y mae'r prosiect yn cefnogi blaenoriaethau effaith economaidd a chymdeithasol ehangach yr ardal leol

pa mor debygol yw hi y bydd prosiect yn cyflwyno ei ganlyniadau arfaethedig yn llwyddiannus

- sut y bydd buddion y prosiect yn cael eu cynnal ar ôl i'r ariannu CCA ddod i ben
- p'un a yw'r dull o greu swyddi a thwf yn gynaliadwy yn amgylcheddol
- p'un a yw'r prosiect yn cynrychioli gwerth cymharol dda am arian
- p'un a ellir cyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus a hawlio'r holl grant o fewn yr amserlen CCA.

Bydd ein hasesiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich cais, ac ar y meini prawf gwneud penderfyniadau allweddol uchod.

Gwneud penderfyniadau

Asesir ceisiadau gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGYLG) a gwneir argymhellion i Banel Penderfyniadau CCA. Mae'n bosib y byddwn yn derbyn cyngor gan gyrff eraill y llywodraeth ac ymgynghori ag arianwyr ac asiantaethau eraill wrth wneud penderfyniadau ariannu.

Mae'r panel penderfyniadau CCA yn cynnwys dau aelod Pwyllgor CGYLG, dau swyddog Llywodraeth Cymru ac aelodau a recriwtir yn annibynnol. Mae'r Panel Penderfyniadau'n gwneud argymhellion sy'n cael eu cyflwyno i'r Gweinidog priodol yn Llywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo'n derfynol.

Mae cyllidebau CCA wedi'u pennu bob blwyddyn o refeniw morol Ystâd y Goron. Gan hynny, mae'r symiau a nodir yn y nodiadau arweiniad hyn yn ddangosol yn unig.

Rhan chwech: Os ydych yn cael eich ariannu

Beth fydd yn digwydd os dyfernir grant i chi?

Os yw eich cais llawn yn llwyddiannus, byddwn yn anfon llythyr cynnig atoch a bydd angen i chi ei lofnodi a'i anfon yn ôl atom er mwyn derbyn yr ariannu a chytuno i'n telerau ac amodau. Byddwn hefyd yn anfon pecyn Canllaw i'ch grant atoch, gan gynnwys ein telerau ac amodau, gyda'r llythyr cynnig.

Os dyfernir ariannu i chi ar gyfer eich costau cyfalaf, bydd hefyd angen i chi gytuno i'n telerau ac amodau ychwanegol ar gyfer ariannu cyfalaf.

Gallwch ddod o hyd i delerau ac amodau grant CCA ar [ein gwefan](#).

Dechrau eich prosiect

Os dyfernir ariannu i chi, rhaid i chi dderbyn ein cynnig o fewn mis o ddyddiad y llythyr cynnig a bydd rhaid i chi ddechrau'r prosiect a hawlio taliad o fewn uchafswm o chwe mis ar ôl derbyn ein cynnig, neu cyn Gorffennaf 1af 2021 (pa bynnag un sydd gyntaf). Mae angen i chi fod yn siŵr y gallwch wneud hyn. Byddwn yn trefnu galwad ffôn i sefydlu'r ariannu gydag ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn trafod ein prosesau a'n gofynion mewn mwy o fanylder.

Os nad ydych chi'n gorff cyhoeddus neu'n elusen gofrestredig bydd yn rhaid i chi sefydlu cyfrif banc dynodedig ar wahân ar gyfer ein harian grant.

Cwblhau'ch prosiect

Bydd rhaid i chi wario'ch ariannu CCA i gyd erbyn 30 Mehefin 2023. Bydd angen sicrhau ffynhonnell ariannu arall ar gyfer unrhyw gostau'r prosiect a ddaw y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Bydd angen i brosiectau sy'n derbyn 100% o'u harian gan CCA gyrraedd y cam Cwblhau Ymarferol erbyn 31 Mawrth 2023 er mwyn i hawliadau terfynol gael eu cyflwyno a'u talu erbyn terfyn amser y rhaglen o 30 Mehefin 2023. Ar gyfer prosiectau cyfalaf gyda gweithgareddau ac ariannu arall y tu hwnt i 31 Mawrth 2023, mae'n rhaid cwblhau a hawlio'r holl wariant ar CCA erbyn diwedd 30 Mehefin 2023 ac mae'n rhaid eich bod yn ymrwymedig trwy gontract adeiladu i gwblhau'r prosiect gyda chyllid arall.

Monitro eich prosiect

Byddwn yn disgwyl ichi fonitro eich gweithgareddau a symud ymlaen tuag at gyflawni canlyniadau eich prosiect yn ystod oes yr arian grant, ac efallai y byddwn yn gofyn ichi gyflenwi gwybodaeth fonitro gyfyngedig yn barhaus. Byddem hefyd yn eich annog i fonitro perfformiad eich prosiect yn gyffredinol. Gweler canllaw'r CCA ar fesur canlyniadau economaidd ar [ein gwefan](#).

Byddwn yn gofyn i chi anfon gwybodaeth atom yn rheolaidd er mwyn i ni gael gwybod am gynnydd eich prosiect, pa wahaniaeth y mae arian CCA wedi ei wneud ac er mwyn i ni fod yn sicr ei fod yn cael ei wario'n briodol. Pan fyddwn yn adolygu eich cynnydd, mae'n bosib y byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol mewn meysydd penodol. Gan hynny, mae'n bwysig bod gan eich prif gyswllt ddealltwriaeth dda o gynnydd eich prosiect.

Bydd angen i brosiectau sy'n derbyn ariannu CCA ddarparu'r wybodaeth monitro ganlynol i ni:

- Ar ôl i'ch ariannu gael ei ddyfarnu byddwn yn gofyn i chi gadarnhau pa systemau monitro rydych wedi'u rhoi ar waith a p'un a yw'r rhain yn cydweddu â'r rhai yn eich cais gwreiddiol.
- Byddwn yn anfon ffurflen monitro flynyddol atoch ar ddiwedd bob blwyddyn prosiect, ble fyddwn yn gofyn i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect a darparu cyfrif o'ch cyllideb ar gyfer y flwyddyn honno.
- Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn gofyn i chi adrodd ar eich cynnydd yn y flwyddyn derfynol ynghyd â llwyddiant cyffredinol y prosiect.
- Byddwn hefyd yn gofyn i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect yn erbyn dangosyddion canlyniadau CCA ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (31 Mawrth). Ar wahanol adegau trwy gydol oes yr arian grant, gallwn gysylltu â chi i drafod cynnydd prosiect, cerrig milltir ac unrhyw heriau, ac i godi unrhyw faterion y manylir arnynt yn eich adroddiad diweddaraf.
- Gallwn wneud trefniadau i ymweld â chi i edrych ar eich systemau rheoli prosiectau a monitro.
- Efallai byddwn hefyd yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ar gyflwyniad a chanlyniadau eich prosiect at ddibenion gwerthuso rhaglen ariannu CCA.

Dylai'ch partneriaid prosiect (os yn berthnasol) fod yn ymwybodol o'n gofynion adrodd. Dylech chi a'ch partneriaid fod wedi clustnodi digon o adnoddau er mwyn adrodd yn ôl atom pan fod angen.

Gwerthuso eich prosiect a rhannu dysg

Os byddwn yn dyfarnu ariannu i chi, rydym eisiau bod yn hyderus bod eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth ac yn nodi cyfleoedd i wella. Mae'n bwysig i'ch mudiad ddeall pam mae ymagweddau penodol yn gweithio neu pam nad ydynt yn gweithio, nodi arfer da a dadansoddi sut mae canlyniadau penodol yn cael eu cyflawni. Gan hynny, mae ffurflenni gwerthuso'n ffurfio rhan bwysig o gynllunio a rheoli prosiectau. Rydym yn eich annog yn gryf i ddatblygu eich cynlluniau gwerthuso a lledaenu eich hunain, yn ogystal â chasglu'r wybodaeth rheolaidd sydd ei angen i fodloni ein gofynion monitro.

Efallai y byddwch am i staff eich prosiect gyflawni gweithgareddau hunanwerthuso neu gael cefnogaeth a chynghor gan asiantaethau neu ymgynghorwyr eraill. Rydym yn fodlon i chi gynnwys hwn yng nghyllideb eich prosiect o dan 'Monitro, gwerthuso a dysgu', cyhyd â bod eich cynlluniau'n gymesur â maint eich prosiect.

Cyhoeddi a chydabod yn gyhoeddus

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i ni hysbysu'r cyhoedd am y grantiau rydym yn eu dyfarnu ac, fel rhan o'r broses hon, mae'n bosib y byddwn eisiau rhoi cyhoeddusrwydd i'ch prosiect. Fodd bynnag, byddem yn sicrhau nad yw eich cyfrinachedd wedi'i gyfaddawdu wrth wneud hyn.

Bydd gofyn i bob prosiect sy'n derbyn ariannu CCA gydnabod cyfraniad ariannu CCA at eu prosiect mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd yn y cyfryngau, a chynnwys logo dwyieithog CCA ar unrhyw arwyddion ar safleoedd adeiladu yn ogystal ag ar eu gwefan.

Llywodraethu da

Mae llywodraethu'n golygu'r ffordd y mae eich mudiad arweiniol a'ch partneriaeth wedi'u sefydlu a'u rhedeg. Mae'n ymwneud â'r gweithdrefnau, y polisiau, y dogfennau a'r trefniadau rheoli sydd gennych ar gyfer y ffordd rydych yn gweinyddu ac yn rheoli eich mudiadau, gan gynnwys ei drefniadau cyllid a chyflwyno'r hyn y maent wedi'u sefydlu i'w gyflawni. Rydym wedi cyhoeddi Canllaw at ein gwiriadau ar eich gwybodaeth sydd hefyd yn eich cyflwyno i'n proses dadansoddi risgiau, gallwch ei weld [YMA](#):

GDPR - Yn unol â gofynion GDPR, bydd angen eich caniatâd arnom i rannu'ch manylion â mudiadau eraill. I ddarganfod pa ddata personol rydyn ni'n ei gasglu a sut rydyn ni'n defnyddio'r data hwn, ewch i: tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/data-protection

Rhan saith: Beth yw'r amserlen?

16 Mehefin 2020	Agored i anfon e-byst o syniadau
Hanner dydd, dydd Gwener 2 Hydref 2020	Dyddiad cau anfon e-byst o syniadau*
Haner dydd, dydd Iau 29 Hydref 2020	Dyddiad cau cais llawn
Diwedd Mawrth 2021	Dyfarniadau ariannu Rownd 6 yn cael eu cyhoeddi
1 Gorffennaf 2021	Dyddiad cau ar gyfer dechrau prosiectau
30 Mehefin 2023	Taliad olaf o grantiau CCA

(*Ein nod yw rhoi penderfyniadau i chi ar eich e-bost Syniad o fewn pythefnos i'ch cyflwyniad. Byddwn yn anfon e-bost i'ch hysbysu o'n penderfyniad ac yn darparu manylion ar sut i gwblhau a chyflwyno cais Llawn).

Rydym yn eich annog i gyflwyno'ch e-bost Syniad ymhell cyn y dyddiad cau o Hanner dydd, dydd Gwener Hydref 2il 2020 rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael unrhyw wybodaeth eglurhad, ac i sicrhau eich bod yn gwneud y mwyaf o'r amser y mae'n rhaid i chi ddatblygu ac ysgrifennu eich cais llawn, pe byddem yn eich gwahodd i gwneud cais.

Rhan wyth: Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth gyrrwch e-bost atom
ar: arfordir@cronfagymunedolyg.org.uk

neu ffoniwch ni ar 029 2168 0214

Mae gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol
ar gael ar ein gwefan:

- Gwiriwr cymhwysedd ar-lein
- Arweiniad CCA ar fesur canlyniadau economaidd
- Amodau a thelerau grant safonol
- Amodau a thelerau ychwanegol ar gyfer grantiau cyfalaf
- Canllaw i'n gwiriadau ar eich gwybodaeth
- Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog
- Cynllun cymorth gwladwriaethol